

WILFRE (' WILFREDUS,' a ffurfiau eraill), esgob

Enw: Wilfre
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Esgob Dewi o 1085 (wedi marw **Sulien**) hyd 1115, a'r olaf o esgobion annibynnol Dewi; Cymro, ar waethaf y ffurfiau Normanaidd ar ei enw. Bwriodd ei goelbren gyda'r Cymry yn y gwrthryfel yn 1096 yn erbyn Normaniaid Dyfed, ac yn ddial am hynny diffeithiodd Gerallt o Benfro ei diroedd ym Mhebediog yn 1097 - yn ôl **Gerallt Gymro**, carcharwyd Wilfre ei hunan am ddeugain niwrnod gan Arnulf Montgomery. Mewn gwirionedd, prin y gallsai Wilfre herio'r Eglwys estron yn obeithiol iawn wedi marw **Rhys ap Tewdwr** (1093), a gwnaeth ei heddwch ag Anselm, archesgob Caergaint (a oedd wedi ei esgymuno gynt); amddiffynnodd Anselm fuddiannau esgobaeth Dewi yn erbyn barwniaid Normanaidd y Deheubarth. Nid yw'n eglur a olygai'r cymod hwn fod Wilfre bellach yn rhoi ufudd-dod canonaidd i Gaergaint. Ond sut bynnag am hynny, efe oedd yr olaf o'r hen linell o esgobion Dewi. Bu farw yn 1115.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 451-2

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804816

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). WILFRE (' WILFREDUS,' a ffurfiau eraill), esgob. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILF-RE0-1085>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government